


YR AMHERSONOL



DEFNYDD

- Ysgrifennu ffurfiol
- Codi safon traethodau academiaidd
- Ysgrifennu'n fwy cryno
- Defnyddiol wrth drawsieithu – defnyddio llai o eiriau.



FFURFIAU CRYNO

- Fel arfer, mae terfyniad (diwedd) y ferf yn dangos y person a'r amser.
- Ond mae terfyniad yr amhersonol yn dangos yr **amser** yn unig.
- Y terfyniadau sy'n cael eu defnyddio amlaf ydy **-ir**, **-wyd**, **-id**.



TREIGLO

Cofiwch:

- **Does dim** treiglad meddal yn dilyn terfyniadau'r amhersonol, e.e.

Ysgrifennwyd **llythyr** gan yr athro.

Dywedwyd **celwydd**.

Cedwir **cofnod**.



FFURFIAU AMHERSONOL

-ir	Gwelir	Yr amser presennol	Gwelir ysgolion newydd yn agor yn Abertawe
-wyd	Gwelwyd	Yr amser gorffennol	Gwelwyd cynnydd yn nifer y disgyblion
-id	Gwelid	Yr amser amherffaith	Gwelid twf mewn addysg Gymraeg ar draws y blynyddoedd



TREFN BRAWDDEGAU

Trefn arferol y frawddeg Gymraeg ydy **Berf + Goddrych + Gwrthrych**, e.e.

- Rhedodd y ferch y ras.
- Ysgrifennodd y bardd gerdd.
- Dylai'r plant gael gwersi.

Dydy brawddegau sy'n cynnwys yr amhersonol ddim yn dilyn y drefn yma. Gyda ffurfiau'r amhersonol, mae'r gwrthrych yn dilyn y ferf a'r goddrych neu'r person sy'n gyfrifol am y weithred yn dod ar ôl ffurf briodol **gan**, e.e.

- Rhedwyd ras **gan** y ferch.
- Ysgrifennwyd y gerdd **gan** y bardd.
- Ysgrifennwyd yr englyn **ganddo** ef.



CYWIR NEU ANGHYWIR?

Cywir

← Sonir yr awdur yn ei erthygl...



← Defnyddia'r plant Gymraeg
graenus



← Cyhoeddwyd y gyfrol ym mis
Hydref



← Dywedwyd Donaldson bod
llythrennedd digidol yn
hollbwysig



← Cyfeiriwyd yn feirniadol at yr
adroddiad



← Awgryma'r awdur mai diffyg
cyfathrebu oedd y broblem



← Cafwyd y plant anhawster gyda'r
dasg



← Credir fy mod wedi datblygu fy
nealltwriaeth o'r maes hwn.



Anghywir

TASG: BERFAU AMHERSONOL. PA 3 BRAWDDEG SY’N GYWIR?

- Defnyddir yr awdur nifer o esiamplau.
- Dangosir yr ymchwil sawl ffaith ddiddorol
- Dywed y bardd fod y byd ar ben.
- Esbonir y llyfr beth yw pwysigrwydd ailgylchu.
- Esbonia’r llyfr beth yw pwysigrwydd ailgylchu.
- Yn y traethawd trafodir pwysigrwydd ieithoedd lleiafrifol.



Cywirwch:

Penderfynwyd y dosbarth eu bod am wneud
arddangosfa

I orffen y thema cafwyd weithdy.

Cafwyd gyflwyniad clir.

Cyflwynwyd Iestyn waith da.

Cyfrannir Mared at drafodaethau yn gyson.

Welir bod cynnydd mawr yn ei gwaith.

Weler bod Iestyn wedi gwella.

Fe gychwynnodd trwy ofyn i'r disgyblion feddwl am eu
harwyr.



CYWIRWCH: YSGOL NEWYDD

Neithiwr, yn Neuadd y Dre, Llangawr, cynhelir cyfarfod cyhoeddus pryd trafododd yr ysgol newydd. Dywedwyd y Cadeirydd, Mr Alwyn Jones, fod y Cyngor Sir wedi paratoi cynlluniau manwl a chroesawyd Mr Jones y pensaer, Nick Hughes, i'w hegluro. Dangoswyd y pensaer y cynlluniau, gofynnodd sawl cwestiwn pwrpasol gan aelodau'r cyhoedd a chawsant ambell ateb boddhaol. Eglurwyd Nick Hughes na fydd yr adeiladau newydd yn gwneud niwed i'r amgylchedd nac i drafnidiaeth yr ardal. Ar ddiwedd y noson cafon nhw paned a chacen wedi'u paratoi gan y pwyllgor a phenderfynodd gynnal cyfarfod arall yn y dyfodol agos.



AFREOLAIDD

Berfenw	Presennol	Gorffennol	Amherffaith
cael	ceir	cafwyd	ceid
gwneud	gwneir	gwnaethpwyd /gwnaed	gwneid
mynd	eir	aethpwyd/ aed	eid
dod	deuir	daethpwyd/ doed	Deuid



RHAGENWAU

Cofiwch:

- Mae'r rhagenw'n cyfateb â'r gwrthrych, e.e.
 - Mae'r **plant** yn cael **eu** disgyblu.
 - Mae'r **ferch** wedi cael **ei** hanwybyddu.
- Mae treigladau'n dilyn y rhagenwau.
 - fy + treiglad trwynol
 - dy, ei (g) + treiglad meddal
 - ei(b) + treiglad llaes

